

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda –  
21003

Dyddiad y gweithgarwch: 1 Tachwedd  
2021

Dyddiad cyhoeddi: 20 Rhagfyr 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [agic@llyw.cymru](mailto:agic@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Ymgwymerodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) â gwiriad ansawdd o bell o leoliad ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Gwasanaeth cleifion mewnol rhyw cymysg â thri gwely yw'r lleoliad, gan arbenigo mewn gofal i oedolion (18 i 65 oed) sydd ag anhwylderau ar y sbectrwm awtistig neu anabledau dysgu. Ar adeg y gwiriad ansawdd, roedd tri chlaf yn preswyllo yn y lleoliad.

Yn dilyn ein gwiriad ansawdd, gwnaeth y lleoliad gau dros dro a dywedwyd wrthym fod yr uned bellach yn wag. Mae hyn yn galluogi i gynllun gwaith gan yr adran ystadau gael ei gwblhau cyn i'r lleoliad ddod yn fan wedi'i feddiannu'n glinigol unwaith eto.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygu a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Ciplun yw gwiriadau ansawdd o safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol ar weithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r arweinydd ar gyfer nyrsio anabledd dysgu ar 1 Tachwedd 2021, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am eu gwasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut mae'r perygl o heintiau'n cael ei asesu a'i reoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?
- Sut ydych chi'n nodi a rheoli brigiadau o achosion o COVID-19 / trosglwyddiad nosocomiaidd yn effeithiol?
- Sut ydych chi'n sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn addas ar gyfer anghenion y cleifion ar hyn o bryd? Pa newidiadau, os o gwbl, sydd wedi cael eu gwneud i'r canlynol o ganlyniad i COVID-19:
  - Yr amgylchedd ffisegol
  - Arferion, trefniadau ymweld a chyswllt ag anwyliaid
  - Rheoli ymddygiad

- 
- Mynediad cleifion at y gymuned / absenoldeb, gweithgareddau a rhwydweithiau cymdeithasol (gan gynnwys absenoldeb ffurfiol lle mae'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn gymwys)?
  - Sut ydych yn diwallu anghenion cleifion Cymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd trwy gyfrwng y Gymraeg?
  - Sut ydych yn sicrhau bod niferoedd digonol o staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol i ddiwallu anghenion y cleifion, gyda mynediad at weithwyr proffesiynol iechyd a gofal ehangach lle bo angen?
  - Sut ydych yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull sy'n seiliedig ar hawliau'n cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?
  - Pa drefniadau sydd mewn grym i sicrhau bod trafodaeth a phenderfyniadau 'Na cheisier dadebru cardio-anadlol' yn briodol ac yn sensitif?
  - Gan ystyried effaith COVID-19, sut ydych yn cyflawni eich dyletswydd gofal yn erbyn y Ddeddf Iechyd Meddwl a deddfwriaeth trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid, a sut mae hawliau cleifion yn cael eu diogelu?

## Yr amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut roedd y gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal i'w gadw mor ddiogel â phosib i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Yr asesiadau gweithle diweddaraf mewn perthynas ag amgylchedd y lleoliad
- Asesiadau risg clymiadau
- Polisiâu/gweithdrefnau diogelwch tân, gan gynnwys yr asesiad risg ar gyfer diogelwch tân (os yw'n berthnasol)

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

### Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwnaeth y nyrs broffesiynol arweiniol ar gyfer nyrsio anableddeu dysgu ein hysbysu o'r mesurau a gymerwyd ers y pandemig i amddiffyn cleifion a staff yn amgylchedd y lleoliad. Dywedwyd wrthym fod rhai cleifion wedi cael eu cefnogi gan y staff ers dechrau'r pandemig er mwyn deall y cyfyngiadau uwch sydd mewn grym yn sgil COVID-19. Dywedwyd wrthym y cafodd newidiadau i gyfyngiadau eu cyfathrebu ar lafar i gleifion mewn modd y gallent ei ddeall orau a bod y wybodaeth hon hefyd ar gael iddynt mewn fformat sydd hawdd ei ddeall.

Er mwyn y gallai cleifion gadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu, cawsom wybod bod y

---

bwrdd iechyd wedi prynu iPad ychwanegol ar ddechrau'r pandemig er mwyn galluogi i alwadau fideo gael eu cynnal rhwng cleifion a'u hanwyliaid yn lle ymweliadau corfforol. Yn ogystal â hyn, roedd gan gleifion fynediad agored at ffôn ar y ward. Ers i gyfyngiadau gael eu llacio, caniatawyd ymweldiadau yn y lleoliad ar yr amod bod gan yr ymwelwyr dystiolaeth o ganlyniad negatif prawf llif unffordd.<sup>1</sup> Hefyd, roedd perthnasau a gofalwyr yn cael eu hannog i gysylltu â'r ward, pan oedd hynny'n briodol, er mwyn arsylwi ar lesiant cleifion.

Cawsom wybod bod mynediad at fws mini'r lleoliad ar gyfer y cleifion hynny a gedwir o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl,<sup>2</sup> ond sydd wedi derbyn absenoldeb adran 17,<sup>3</sup> wedi cael ei gyfyngu, a'i fod wedi'i ddefnyddio ar sail fesul claf yn unig ers y pandemig. Dywedwyd wrthym y byddai pob claf yng nghwmni dau aelod o staff ac roedd hyn yn galluogi cadw pellter cymdeithasol digonol ar y bws mini. Byddai'r bws mini yn cael ei lanhau â chlytiau diheintio rhwng pob defnydd i atal croes-heintio rhwng cleifion. Er mwyn sicrhau tegwch defnydd, cawsom wybod bod amserlen wythnosol wedi cael ei llunio. Roedd hyn yn galluogi cleifion i fynychu apwyntiadau gofal iechyd y tu allan i'r lleoliad a hefyd i bob claf gael mynediad at weithgareddau hamdden, megis cerdded ar y traeth neu daith i siopau lleol, pe baent yn dymuno gwneud hynny.

Cyn i'r cyfyngiadau gael eu llacio ac yn ystod brig y pandemig, dywedwyd wrthym fod y staff yn annog cleifion i gymryd rhan mewn gweithgareddau yr oeddent yn eu mwynhau ac yn eu hystyried yn werth chweil. Dywedwyd wrthym y byddai hyn yn cynnwys cefnogi cleifion i gael mynediad at weithgareddau ar-lein, i wneud pobi yn y lleoliad, neu i wneud ymweliadau byr iawn yng nghwmni â'r siop leol.

Gwnaethom ofyn i'r lleoliad pa drefniadau oedd mewn grym ar gyfer cleifion a oedd yn dymuno cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg. Cawsom wybod bod gan y lleoliad ganran fawr o staff sy'n siarad Cymraeg a bod hyn yn golygu y gallai cleifion gyfathrebu'n hawdd yn y Gymraeg, pe baent yn dymuno. Cawsom wybod bod posteri yn cael eu harddangos yn y lleoliad sy'n annog cleifion i gyfathrebu trwy'r Gymraeg a gofynnwyd i bob claf ar adeg ei dderbyn, os oedd hynny'n briodol, ym mha iaith yr oedd yn well ganddo gyfathrebu.

### **Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Gwelsom dystiolaeth nad yw'r lleoliad wedi cwblhau asesiad risg tân ers mis Awst 2020. Gwnaeth yr asesiad risg tân hwn dynnu sylw at rai risgiau difrifol iawn i ddiogelwch cleifion a staff, ac roedd yn gofyn am nifer o welliannau brys sydd wedi'u cynnwys ar y Cynllun Gweithredu Tân sydd ynghlwm wrth yr asesiad risg tân. Roedd y rhain yn cynnwys disodli

---

<sup>1</sup> Rhoddir profion llif unffordd i bobl nad ydynt yn dangos symptomau COVID-19 ond a all fod yn heintus o hyd. Mae profion llif unffordd yn ffordd gyflym o bennu a oes gennych chi'r feirws ar ddiwrnod y prawf. Mae cleifion fel arfer yn cael canlyniadau o fewn deg i 30 munud.

<sup>2</sup> Deddf Iechyd Meddwl 1983 yw'r prif ddarn o ddeddfwriaeth sy'n ymdrin ag asesu pobl a rhoi triniaeth iddynt, a hawliau pobl sydd ag anhwylder iechyd meddwl. Mae angen triniaeth frys ar gyfer anhwylder iechyd meddwl ar bobl a gedwir dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ac mae risg o niwed iddyn nhw eu hunain ac i eraill.

<sup>3</sup> Gellir defnyddio absenoldeb adran 17 i ganiatáu cyfnodau absenoldeb byrrach o'r ysbyty cyn rhyddhau cleifion.

---

system darganfod tân ddarfodedig, allanfeydd tân rhwystredig, a drysau tân anigonol, lle roedd bylchau gormodol a fyddai'n galluogi mynediad mwg pe bai tân. Nid oedd unrhyw un o'r camau gweithredu gofynnol wedi'u cwblhau ar adeg y gwiriad ansawdd.

Gwelsom dystiolaeth o asesiad risg clymiadau a gwblhawyd ym mis Chwefror 2021. Nododd hwn nifer sylweddol o risgiau clymiadau ledled y lleoliad. Roedd y rhain yn cynnwys handlenni ffenestri a drysau yn ystafelloedd gwely'r cleifion, tapiâu yn ystafelloedd gwely'r cleifion, a manau clymiadau niferus mewn manau cymunol, yn fewnol ac yng ngerddi'r lleoliad. Fodd bynnag, ar adeg y gwiriad ansawdd, ni chymerwyd eto unrhyw gamau unioni i'r amgylchedd i ddileu'r risgiau clymiadau a nodwyd.

Gwnaeth AGIC weld dystiolaeth o asesiad y gweithle a gwblhawyd ym mis Medi 2021 gan reolwr blaenorol y ward. Roedd hwn yn nodi adeilad sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n wael gyda lefel uchel o adfeiliad trwy gydol y manau mewnol ac allanol. Roedd manau o bryder sylweddol i'r adeilad allanol yn cynnwys cwteri, ffenestri a rendrad allanol sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n wael, gan alluogi mynediad dŵr a llifogydd yn ystod tywydd gwlyb. Ymhellach, nododd yr asesiad ffenestri trwy gydol yr adeilad heb architraf ac roedd yr ewyn o amgylch y ffenestri'n pydru, gan alluogi mwy o ddŵr i ddod i mewn. Yn ogystal, nid oedd drysau i'r tu allan i'r adeilad yn darparu sêl ddigonol, eto yn galluogi dŵr i ddod i mewn i'r adeilad mewn tywydd gwlyb. Adroddwyd bod goleuadau'n wael mewn rhai manau ac yn llachar iawn mewn manau eraill, gyda gosodiadau gwydr a oedd yn llawn pryfed marw, heb y gallu i'w tywyllu os oedd angen. Nodwyd bod y llif awyr cyffredinol trwy'r lleoliad yn wael ac roedd y lleoliad yn aml yn rhy boeth ac yn rhy swnllyd, a chafodd hyn ei nodi i fod yn risg o ran cynyddu'r tebygolrwydd o ymddygiad heriol gan y cleifion.

Nodwyd pryderon pellach yn asesiad y gweithle, gan gynnwys ffenestri i ystafell wely un claf a oedd wedi cael eu bolltio i'w cadw ar gau yn sgil y risg o'r claf yn dianc. Roedd hyn yn golygu bod llif awyr a'r gallu i reoleiddio tymheredd yr ystafell yn effeithiol hefyd wedi'u heffeithio. Nodwyd hefyd fod ystafelloedd gwely y cleifion ond yn hygyrch trwy allwedd, gan gynyddu'r risg o niwed os bydd tân neu achos o hunan-niweidio. Nid oedd drws arall i ystafell wely claf yn cynnwys ffenestr, neu debyg, yn y drws, gan felly atal staff rhag arsylwi pe bai hyn yn angenrheidiol.

Hefyd, nododd yr asesiad ymhellach fod yr ardd a'r ardaloedd yn yr awyr agored wedi'u cofnodi fel manau a oedd yn cael eu cynnal a'u cadw'n wael, a'u bod yn beryglus ac yn cynnwys nifer o eitemau y gallai cleifion eu defnyddio i niweidio eu hunain neu eraill. Roedd y gerddi yn cynnwys dodrefn gardd a oedd yn pydru gyda hoelion agored a oedd yn rhydu, a choed oedd wedi gordyfu yr adroddwyd eu bod yn gymorth i gleifion ddianc. Roedd twnelau polythen wedi'u difrodi<sup>4</sup> a oedd yn peri risg clymiadau sylweddol ac ardaloedd o balmant wedi torri a gafodd eu hadrodd fel risg gan y gellid eu defnyddio fel erfyn. Adroddwyd bod sylwedd

---

<sup>4</sup> Twnnel sydd wedi'i wneud yn nodweddiadol o ddur ac wedi'i orchuddio â pholyethylen, fel arfer yn hanner cylch, yn sgwâr neu'n hirgul mewn siâp, yw twnnel polythen (a elwir hefyd yn dŷ polythen, tŷ gwydr cylch neu dŷ cylch, twnnel tyfu neu dwnnel uchel). Mae'r tu mewn yn cynhesu oherwydd bod ymbelydredd solar sy'n dod i mewn o'r haul yn cynhesu planhigion, pridd a phethau eraill y tu mewn i'r adeilad yn gyflymach nag y gall gwres ddianc o'r adeiledd.

---

gwyrdd sy'n debyg i algâu yn tyfu ar y waliau ac adroddwyd bod deunydd allanol yr adeilad a man to wedi'u gorchuddio â mwsogl. Roedd natur anniogel ac anaddas y tiroedd allanol a adroddwyd yn asesiad gweithle'r lleoliad yn atal y cleifion rhag eu defnyddio ar gyfer therapïau neu i wella eu lles.

Yn ystod y gwiriad ansawdd, dywedwyd wrthym gan y nyrs broffesiynol arweiniol nad oedd yr adeilad yn "addas i'r diben", gan na allai'r amgylchedd ddiwallu anghenion y boblogaeth newidiol o gleifion. Gwnaeth ein hysbysu ei bod yn teimlo y dylid cau'r uned er mwyn galluogi iddi gael ei hailwampio'n llwyr ac i sicrhau bod yr amgylchedd yn addas i'r cleifion.

O ganlyniad i'r canfyddiadau uchod, roedd gan AGIC bryderon sylweddol ynglŷn â'r risg i ddiogelwch uniongyrchol cleifion yn y lleoliad. Codwyd y pryderon hyn ar unwaith gyda'r bwrdd iechyd a'r gwasanaeth tân trwy ein proses sicrwydd ar unwaith, lle rydym yn ysgrifennu at wasanaeth o fewn dau ddiwrnod o arolygiad neu wiriadau ansawdd, gan ofyn iddo ymgymryd â champau unioni er mwyn rhoi sylw i'r materion sy'n codi'r pryderon mwyaf a mynd i'r afael â'r meysydd sy'n peri'r risg fwyaf heb oedi. Ers hynny, rydym wedi derbyn sicrwydd gan y bwrdd iechyd bod y meysydd o bryder y tynnwyd sylw atynt yn yr adroddiad hwn a'r ddogfen sicrwydd ar unwaith a anfonwyd at y lleoliad yn derbyn sylw yn brydlon.

Cofnodwyd yn y dystiolaeth o'r adolygiad bod y cleifion yn cael eu gwahanu am gyfnodau hir. Gallai lefelau gwahanu o'r fath rhag eraill atal twf a datblygiad personol ac mae gofyn am sicrwydd ar AGIC ynghylch cyd-destun y gwahanu hirdymor hwn ac a yw unrhyw un o'r cleifion yn destun gwahanu hirdymor mewn gwirionedd. Cafwyd tystiolaeth o wahanu fel ymateb adweithiol i ymddygiadau heriol, ynghyd â defnydd o ystafell ysgogiad isel. Roedd gofyn am sicrwydd ar AGIC ynghylch y defnydd o ystafelloedd ysgogiad isel o'i gymharu ag amser heb fod yn destun mesurau gwahanu, gan na chyfeiriwyd at ystafelloedd ysgogiad isel ym mholisi gwahanu'r bwrdd iechyd.

Mewn perthynas â gwahanu, mae gofyn am sicrwydd ar AGIC bod y strategaethau hyn yn cael eu rheoli'n briodol o fewn cyfyngiadau Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 a bod manylion mewn cynlluniau gofal unigol ochr yn ochr â chyfleoedd i ddatblygu sgiliau personol.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd bod gwahanu hirdymor yn cael ei reoli'n briodol o fewn cyfyngiadau Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Yn ogystal â hyn, mae'n rhaid i hyn fod yn unol â chynlluniau gofal cleifion unigol i sicrhau a galluogi cyfle i dyfu a datblygu sgiliau personol.

---

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o heintiau, er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Cyfraddau heintiau presennol ar gyfer unrhyw heintiau a gafwyd ym maes gofal iechyd a chopïau o adroddiadau ymchwilio lle bu brigadau o achosion o COVID-19 / trosglwyddiad nosocomiaidd ar y ward
- Polisiâu rheoli heintiau cyffredinol a pholisiâu penodol ynghylch COVID-19
- Yr asesiadau risg / archwiliadau rheoli heintiau mwyaf diweddar
- Amserlenni glanhau

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwnaeth y nyrs arweiniol broffesiynol ar gyfer anableddau dysgu yn y bwrdd iechyd roi tystiolaeth o'r systemau sydd ar waith i sicrhau atal a rheoli heintiau, gan gynnwys y mesurau hynny i atal trosglwyddiad COVID-19 a ddefnyddir gan y lleoliad.

Dywedwyd wrthym y byddai pob claf yn cael ei sgrinio am COVID-19 wrth iddo gael ei dderbyn ac aseswyd ei fregusrwydd unigol hefyd. Cynigiwyd brechiad COVID-19 i'r rhai nad ydynt wedi cael un, pan oedd hynny'n briodol, a gofynnwyd i gleifion gael prawf adwaith cadwynol polymerasau (PCR) bob wythnos i wirio am dystiolaeth o haint COVID-19. Roedd cleifion hefyd yn cael eu hannog i wisgo masg wyneb pan fydd angen, os yw'n bosibl. Byddai tîm staff yn cael ei neilltuo i bob claf ar gyfer gofal trwy gydol taith y claf yn ystod y pandemig, er mwyn atal croes-heintio â COVID-19. Dywedwyd wrthym fod y bwrdd iechyd wedi cymryd rhan mewn gwneud fideo i gleifion ag anableddau dysgu er mwyn eu helpu i ddeall y newidiadau oedd wedi cael eu gwneud mewn lleoliadau ysbyty a'u hysbysu o'r hyn i'w ddisgwyl wrth fynd i'r ysbyty.

Roedd disgwyl i staff y ward ymgymryd â phrawf llif unffordd ddwywaith yr wythnos ar ddiwrnodau penodol. Cofnodwyd y canlyniadau ar daflen gofnodi ward neilltuedig. Ar anterth y pandemig, byddai'r staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol dros eu gwisgoedd gweithio. Cafodd mannau gwisgo a diosg<sup>5</sup> penodol eu dyrannu i alluogi staff i wisgo a thynnu eu cyfarpar diogelu personol a dywedwyd wrthym fod staff wedi cael prawf ffitio ar gyfer masgiau FFP (FFP3)<sup>6</sup> rhag ofn y byddai eu hangen arnynt. Dywedwyd wrthym fod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant COVID-19 ar-lein gorfodol, a oedd yn cynnwys sut i wisgo a diosg cyfarpar diogelu personol yn gywir.

---

<sup>5</sup> Gwisgo - gwisgo cyfarpar diogelu personol; diosg - tynnu cyfarpar diogelu personol.

<sup>6</sup> Mae masg FFP (FFP3) yn ddyluniad penodol o fasg sy'n ffitio'n agos i'r wyneb ac yn darparu amddiffyniad gwell rhag lleithder ac aerosolau.



---

Cawsom wybod bod trefniadau glanhau wedi cynyddu yn y lleoliad. Byddai arwynebau'n cael eu glanhau â chlytiau glanhaol dair gwaith y dydd ac roedd disgwyl i'r holl staff wisgo masg wyneb. Roedd hylif diheintio dwylo ar gael ym mhob rhan o'r ward i'r holl gleifion, staff ac ymwelwyr ei ddefnyddio a dywedwyd wrthym fod y lleoliad yn mwynhau cysylltiadau cryf â'r tîm atal a rheoli heintiau a chawsant eu cefnogi'n dda ganddynt.

Gwnaethom ofyn i'r lleoliad am y trefniadau ar gyfer sicrhau bod gan y staff stoc ddigonol o gyfarpar diogelu personol. Dywedwyd wrthym nad oedd y lleoliad wedi profi unrhyw anawsterau wrth gyrchu cyflenwadau digonol o gyfarpar diogelu personol. Roedd aelod o staff neilltuedig yn gyfrifol am wirio lefelau stoc ac archebu cyflenwadau newydd o bob eitem o gyfarpar diogelu personol. Yn ogystal, roedd gan y gwasanaeth gyflenwad neilltuedig o gyfarpar diogelu personol ar gyfer lleoliadau iechyd meddwl ac anabledau dysgu yn y bwrdd iechyd. Dywedwyd wrthym fod masgiau tryloyw i alluogi cleifion i weld ystumiau wynebau wedi'u prynu, yn ogystal â masgiau traddodiadol, er mwyn helpu'r rhai a allai ystyried masgiau traddodiadol i fod yn rhwystr i gyfathrebu. Cawsom wybod hefyd bod gan y bwrdd iechyd hyrwyddwr cyfarpar diogelu personol a fyddai'n mynychu'r lleoliad yn rheolaidd i sicrhau bod y cyfarpar diogelu personol cywir yn cael ei wisgo gan y staff.

Gwnaethom ofyn i'r lleoliad sut mae'n sicrhau bod yr holl staff yn cael eu hysbysu am ddiweddariadau i ganllawiau a pholisi mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau a dywedwyd wrthym fod gan y lleoliad dudalen neilltuedig ar fewnrwyd y staff a fyddai'n arddangos unrhyw ddiweddariadau i ganllawiau presennol. Yn ogystal, cafodd dogfennau pwysig eu hargraffu ac roeddent ar gael i'r holl staff trwy hysbysfwrdd staff ac e-bost.

Rhoddyd tystiolaeth inni o bolisi COVID-19 cynhwysfawr, asesiadau risg COVID-19, a pholisi rheoli heintiau cyffredinol a oedd yn gyfredol, gyda fersiynau oedd yn cael eu rheoli, ac a oedd yn glynu at ganllawiau cenedlaethol er mwyn amddiffyn cleifion, staff ac ymwelwyr.

### **Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Yn ystod y galwad gwirio ansawdd, dywedwyd wrthym nad yw staff yn y lleoliad yn gwisgo eu gwisgoedd gofal iechyd yn y gwaith bellach. Fe'n hysbyswyd bod hyn oherwydd bod y cyfyngiadau ynghylch COVID-19 wedi cael eu llacio. Fodd bynnag, ymgymerid â dyletswyddau gofal personol a chadw tŷ, ynghyd â chyfrifoldebau glanhau amgylcheddol ychwanegol yn sgil COVID-19, gan aelodau o staff. Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau eu bod wedi ystyried yn ddigonol y grwpiau cleifion penodol a'r anghenion gofal ac ai gwisgoedd gofal iechyd neu ddillad eu hunain yw'r rhai mwyaf priodol yn eu lleoliadau. Yn y lleoliad penodol hwn, o ystyried bod y grŵp cleifion wedi bod yn newid, byddai polisi clir yn helpu staff i sicrhau eu bod yn dilyn canllawiau diweddaraf y bwrdd iechyd.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ganddynt bolisi gwig gofal iechyd sydd wedi ystyried pob grŵp o gleifion, a beth i'w wneud mewn perthynas â gwisg ysgol pan fydd grŵp cleifion yn newid. Rhaid cyfleu hyn yn glir i'r staff fel eu bod yn glir ynghylch a yw gwisg gofal iechyd neu ddillad eu hunain yn diwallu anghenion y grŵp cleifion a'u gofynion gosod.

---

Yn ogystal, cofnodwyd yn y ddogfen asesu'r gweithle fod gan y lleoliad un uned gawod ystafell wlyb yn unig ar gael. Gan fod hon yn ffurfio rhan o ystafell ymolchi en suite, ni chawsom ein sicrhau y gallai urddas a phreifatrwydd cleifion gael eu parchu. Roedd y sinc yn yr ystafell gawod unigol hon wedi'i dynnu yn sgil digwyddiad yn cynnwys ymddygiad heriol, gan felly atal golchi dwylo digonol ar ôl defnyddio'r toiled ac i frwsio dannedd. Cafodd cleifion eu cyfarwyddo i olchi eu dwylo mewn man ystafell olchi amgen ar ôl defnyddio'r toiled. Roedd yr ystafell ymolchi hon yn cynnwys eitemau y gallai cleifion eu defnyddio i niweidio eu hunain neu eraill.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu sicrwydd am y canlynol:

- bod cyfleusterau golchi dwylo priodol ar gael i gleifion ar ôl defnyddio'r toiled
- bod cyfleusterau ystafell ymolchi yn sicrhau bod preifatrwydd ac urddas cleifion yn cael eu parchu

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC holi cynrychiolwyr y gwasanaeth ynghylch sut, yng ngoleuni effaith COVID-19, maent wedi addasu eu gwasanaeth. Gwnaethom ystyried a oedd y trefniadau rheoli yn sicrhau bod niferoedd digonol o staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol er mwyn diwallu anghenion y cleifion, gyda mynediad at weithwyr iechyd meddwl proffesiynol ehangach lle bo angen.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Polisiâu/gweithdrefnau cydsyniad gwybodus
- Polisiâu uwchgyfeirio
- Yr archwiliad/adolygiad diweddaraf o waith papur cadw cleifion dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, ynghyd â chynllun gweithredu yn nodi sut y rhoddir sylw i unrhyw feysydd a nodwyd
- Polisiâu/prosesau corfforaethol i sicrhau parodrwydd am argyfwng pandemig yn y dyfodol
- Cynlluniau parhad busnes
- Cofnodion hyfforddiant gorfodol i'r holl staff
- Canran y cyfraddau cwblhau cyfredol ar gyfer hyfforddiant gorfodol
- Aseidiadau risg a gymerwyd mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau, yr amgylchedd, ac iechyd a diogelwch staff
- Manylion digwyddiadau a champau a gymerwyd i'w datrys
- Manylion digwyddiadau, yn benodol digwyddiadau o ymddygiad heriol, ataliaeth a gwahanu
- Nifer yr atgyfeiriadau diogelu
- Data llais y claf

- 
- Data llais y rhiant/gofalwr

### **Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Dywedwyd wrthym fod yr holl staff yn cael arfarniadau blynyddol ac yn cael goruchwyliaeth reolaidd gan oruchwyliwr dynodedig yn y gwasanaeth. Cyn y pandemig, cynhaliwyd cyfarfodydd staff rheolaidd a oedd yn galluogi staff i ddweud unrhyw bryderon a allai fod ganddynt.

Dywedwyd wrthym fod gwasanaeth llesiant staff, a oedd mewn grym cyn y pandemig, wedi'i ddatblygu ymhellach i gynnig cymorth i staff. Yn ogystal â hyn, gweithredwyd ystod o glybiau a gweithgareddau llesiant i hyrwyddo boddhad staff yn y bwrdd iechyd ac roedd y gwaith o ddatblygu manau gwyrdd yn y bwrdd iechyd cyfan yn cael ei annog. Roedd gweithio gartref yn cael ei annog i'r staff hynny a all weithio o bell.

Gwnaethom ofyn i'r lleoliad ddisgrifio sut mae anghenion cleifion yn cael eu diwallu sut mae eu hawliau'n cael eu cynnal pan fyddant yn y lleoliad. Dywedwyd wrthym fod gan yr holl gleifion broffil iechyd<sup>7</sup> a oedd yn rhoi manylion am eu hanghenion unigol pe bai angen iddynt fynd i adran ysbyty arall. Cawsom hefyd wybod bod gan y bwrdd iechyd adran weithredol sy'n monitro'r prosesau cyfreithiol a'r gwaith o gynnal hawliau'r rhai a gedwir o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Roedd y cleifion yn gallu cael mynediad at dribiwnlysoedd iechyd meddwl a chefnogwyd cleifion pe baent yn dymuno herio eu cadw cyfreithiol. Fodd bynnag, roedd y tribiwnlysoedd a'r cymorth yn hygyrch yn rhithwir neu dros y ffôn.

Gwnaeth y staff yn y lleoliad ein hysbysu y gwnaeth hyn gael effaith ar hygyrchedd i gleifion. Fodd bynnag, roedd cymorth ar gael gan wasanaeth eirioli pe bai gofyn amdano. Cafodd AGIC ei hysbysu y byddai cynrychiolwyr cyfreithiol yn ymweld â'r lleoliad yn rheolaidd i roi cynngor i gleifion. Byddai llenyddiaeth gan y gwasanaeth tribiwnlys yn cael ei egluro i'r cleifion gan y staff a byddai penderfyniadau a wnaed gan y gwasanaeth tribiwnlys yn cael eu trosi i fformat hawdd ei ddeall gan y tîm lleferydd ac iaith yn y lleoliad.

### **Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Gwnaethom dderbyn tystiolaeth o absenoldeb staff oherwydd salwch a data swyddi gwag gan y lleoliad. Roedd hyn yn dangos nad oedd gan y gwasanaeth uwch-dîm nyrsio parhaol ar waith a bod ganddo sawl swydd wag i staff nyrsio. Dywedwyd wrthym fod hyn oherwydd newidiadau a weithredwyd yn ddiweddar i ddarpariaeth y gwasanaeth ac i boblogaeth y cleifion. Gwnaeth ystyriaeth fanylach o'r data hwn ddatgelu bod y lefel uchel o absenoldeb oherwydd salwch yn sgil straen a gorbryder staff, gyda nifer o staff yn absennol heb ddyddiad dychwelyd arfaethedig. Roedd nifer o aelodau o staff wedi bod yn absennol o'u rolau ers peth amser.

---

<sup>7</sup> Mae proffil iechyd yn ddogfen sy'n mynd gyda chlaf ag anabledau dysgu neu anawsterau cyfathrebu i'r ysbyty i hysbysu staff y GIG o'r anawsterau hynny, ynghyd â hoff bethau, casbethau a gwybodaeth bwysig arall.

---

Gwnaethom adolygu tystiolaeth a roddwyd inni o asesiad trais ac ymosodedd a gynhaliwyd yn y lleoliad gan yr uwch-nyrs ddiweddaraf. Roedd hwn yn cofnodi bod staff yn y lleoliad yn teimlo dan bwysau mawr, yn bryderus, ac fel nad oeddent yn cael eu cefnogi yn eu rolau, ac roeddent yn aml yn teimlo dan fygythiad o ymddygiad treisgar ac ymosodol gan gleifion. Yn ystod ein galwad gwirio ansawdd, dywedwyd wrthym fod y staff yn teimlo nad oedd ganddynt y sgiliau, gwybodaeth neu brofiad angenrheidiol i ofalu am y cleifion cymhleth iawn yn y lleoliad yn briodol, gan arwain at lefelau uchel o salwch ac absenoldeb staff. Yn dilyn digwyddiad o ymddygiad treisgar neu ymosodol gan glaf, dywedwyd wrthym y byddai trafodaeth anffurfiol gyda'r staff ond efallai na fyddent yn derbyn y cymorth perthnasol drwy'r amser. Cawsom ein hysbysu nad oedd uwch-staff yn y bwrdd iechyd drwy'r amser yn cael eu hysbysu am ddigwyddiadau o ymddygiad treisgar ac ymosodol gan nad oedd staff o fewn y ward yn aml yn rhoi gwybod am ddigwyddiadau o'r fath. Felly, nid oedd cymorth ac anogaeth ar gyfer dysgu ar lefel reoli drwy'r amser yn cael ei ddarparu mewn modd amserol.

Cofnodwyd yn yr asesiad risg trais ac ymosodedd nad yw staff drwy'r amser yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan yr heddlu wrth alw am gymorth yn ystod digwyddiad treisgar. Yn ogystal, yn dilyn adolygiad o'r asesiad hwn, ni chawsom sicrwydd bod y staff yn hyderus o'r gweithdrefnau cywir i'w cynnal pe bai claf yn mynd yn dreisgar ac yn ymosodol tuag atynt. Nododd y ddogfen nad oedd digon o larymau diogelwch personol i staff eu defnyddio, eu bod yn anodd eu gweithredu, a phe bai eu hangen yn yr ardal awyr agored yn y lleoliad, byddai angen iddynt gael eu cychwyn ac wedyn eu taflu cryn bellter tuag at ffens derfyn er mwyn iddynt wneud sŵn.

Mae angen sicrwydd ar AGIC gan y bwrdd iechyd am y canlynol:

- Bydd camau gweithredu'n cael eu cymryd i ddarparu cymorth parhaus i staff er mwyn hyrwyddo a chynnal diogelwch a llesiant staff
- Bydd sgiliau a gwybodaeth y staff yn y lleoliad yn cael eu gwella i sicrhau bod y grŵp cleifion yn y lleoliad yn derbyn gofal mewn modd priodol ac yn unol ag arferion gorau
- Nid yw'n canfyddiadau'n dangos methiant systemig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol ar draws yr holl wasanaethau
- Mae lefelau staffio yn y gwasanaeth yn briodol er mwyn diwallu anghenion y cleifion yn y lleoliad drwy'r amser

O ganlyniad i'r canfyddiadau uchod, roedd gan AGIC bryderon sylweddol ynglŷn â'r risg i ddiogelwch uniongyrchol staff yn y lleoliad. Codwyd y pryderon hyn ar unwaith gyda'r bwrdd iechyd trwy ein proses sicrwydd ar unwaith, lle rydym yn ysgrifennu ar wasanaeth cyn pen dau ddiwrnod o arolygiad neu wiriadau ansawdd yn gofyn am gamau unioni i gael eu cymryd yn ddi-oed er mwyn rhoi sylw i'r materion sy'n codi'r pryderon mwyaf a mynd i'r afael â'r meysydd sy'n peri'r risg fwyaf. Ers hynny, rydym wedi derbyn sicrwydd gan y bwrdd iechyd bod y meysydd o bryder y tynnwyd sylw atynt yn yr adroddiad hwn a'r ddogfen sicrwydd ar unwaith a anfonwyd at y lleoliad yn derbyn sylw yn brydlon.

Yn ystod proses y gwiriad ansawdd, gwnaethom ofyn i weld tystiolaeth o ddata llais y claf a

---

---

gasglwyd yn ddiweddar.<sup>8</sup> Er y cawsom ein hysbysu bod ffurflen beilot yn cael ei datblygu gan ymarferwyr lleferydd ac iaith arbenigol ac uwch-staff, dywedwyd wrthym yn ystod y galwad gwirio ansawdd nad oedd y data hwn yn cael ei gasglu ar hyn o bryd gan y gwasanaeth gan ei fod yn teimlo nad oedd y ffurflenni ar ffurf addas i'r grŵp cleifion eu defnyddio. Dywedwyd wrthym na fyddai gofalywyr yn llenwi'r ffurflenni adeg rhyddhau cleifion a, phe byddent yn cynnig helpu cleifion i'w llenwi yn y lleoliad, byddai cleifion yn cytuno. Felly, ni fyddai data'n adlewyrchu llais a barn y claf ar y gwasanaeth a ddarperir yn y lleoliad. Gwelsom dystiolaeth o ffurflen adborth a ddarperir i gleifion ar ôl iddynt fod yn destun ataliaeth gorfforol. Fodd bynnag, nid oedd cofnodion digwyddiadau'n casglu data o'r ffurflenni hyn ac nid oeddent yn nodi a oedd claf wedi derbyn y ffurflen ar ôl bod yn destun ataliaeth gorfforol. Heb gasglu data llais y claf, ni all ansawdd y gwasanaeth a phrofiad y claf fod yn hysbys ac ni ellir gwneud gwelliannau.

Mae angen sicrwydd ar AGIC gan y bwrdd iechyd am y canlynol:

- Gwneir pob ymdrech i gasglu data llais y claf er mwyn cael barn y cleifion am y gwasanaeth a ddarperir gan y lleoliad
- Mae cleifion yn gallu darparu adborth ar eu profiadau o gael eu hatal yn gorfforol

Gwnaeth AGIC ofyn i'r lleoliad ddisgrifio'r trefniadau ar gyfer sicrhau bod y staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol. Dywedwyd wrthym y cedwir cofnodion hyfforddiant staff yn electronig ar gronfa ddata ganolog. Yn sgil y pandemig, roedd y rhan fwyaf o hyfforddiant gorfodol yn hygyrch ar-lein i staff ei gwblhau. Er bod hyn yn arddangos cyfradd foddhaol gyffredinol o gydymffurfedd, roedd sawl maes allweddol lle roedd cydymffurfedd yn isel ac yn annigonol i'r lleoliad. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant diogelwch tân, cynnal bywyd sylfaenol ac uniongyrchol oedolion, a diogelu plant ac oedolion.

Mae angen sicrwydd ar AGIC gan y bwrdd iechyd fod cydymffurfedd staff â hyfforddiant gorfodol yn cael ei gwblhau.

Dywedwyd wrthym nad oedd gan y cleifion yn y lleoliad fynediad at gymorth therapi galwedigaethol yn yr uned yn sgil absenoldeb hirdymor oherwydd salwch. Roedd hyn yn golygu nad oedd gan gleifion gymorth sydd wedi'i dargedu mewn ystod o weithgareddau therapiwtig i annog a datblygu eu sgiliau ar gyfer annibyniaeth a thwf yn yr ysbyty.

Mae angen sicrwydd ar AGIC gan y bwrdd iechyd y rhoddir gweithgareddau priodol sydd wedi'u targedu i gleifion i wella eu hannibyniaeth, eu datblygiad a'u twf.

---

## Beth nesaf?

<sup>8</sup> Mae data llais y claf yn ymwneud â phrofiad y claf wrth ar y ward neu yn y lleoliad ac mae modd o alluogi cleifion a gofalywyr i roi adborth i'r gwasanaeth am eu profiad o'u gofal.

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytnir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad cryno ar y gwiriad ansawdd fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Cynllun gwella

Lleoliad: 21003

Ward/Adran/Gwasanaeth (dilêwch fel y bo'n berthnasol): Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Dyddiad y gweithgarwch: 1 Tachwedd 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn eu cylch sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Sylwer, disgwylir i'r holl gamau gweithredu gael eu cwblhau o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r cynllun gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Cyfeirnod	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1	Mae angen manylion ar AGIC ynghylch sut y bydd y bwrdd iechyd yn asesu'r holl risgiau i ddiogelwch tân yn yr uned ac yn mynd i'r afael â'r hwy.	<b>Safon 2.1</b> Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Nid oes unrhyw gleifion yn yr uned ar hyn o bryd. Mae asesiadau risg manwl wedi cael eu cynnal, ac mae cynlluniau gweithredu cyfatebol yn cael eu datblygu er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd yn yr adroddiad.	Swyddog Diogelwch Tân	Mawrth 2022

2	Mae angen manylion ar AGIC ynghylch sut y bydd y bwrdd iechyd yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei addasu a'i gynnal i sicrhau bod sbardunau amgylcheddol i ymddygiadau heriol yn cael eu lleihau ac i alluogi cleifion i gael mynediad i fan addas yn yr awyr agored.	<b>Safon 4.1</b> Gofal urddas ag	Cyflwynwyd cynnig cyfalaf i Lywodraeth Cymru. Roedd hwn yn llwyddiannus, mae gwaith wedi'i gymeradwyo, a bydd yn dechrau ym mis Ionawr. Mae hyn yn cynnwys ffens derfyn ddiogel i hwyluso mynediad at yr awyr agored.	Cyfarwyddwr Ystadau / Pennaeth Gwasanaethau Anableded Dysgu	Mawrth 2022
3	Mae angen manylion ar AGIC ynghylch sut y bydd y bwrdd iechyd yn sicrhau y darperir mynediad priodol at doiledau, ystafelloedd ymolchi a chyfleusterau golchi dwylo ar gyfer cleifion yn y gwasanaeth.	<b>Safon 2.4</b> Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Mae'r holl ystafelloedd gwely yn en suite ac, felly, mae'r ystafell ymolchi ar gyfer defnydd y claf sy'n defnyddio'r ystafell wely honno yn unig. Pan fydd sefyllfa'n codi lle nad yw'r cyfleuster ystafell ymolchi yn briodol i'r unigolyn, mae ystafell ymolchi wedi'i haddasu sydd ar gael i'w defnyddio. Dylai'r holl ystafelloedd ymolchi fod ag ystod lawn o gyfleusterau golchi dwylo a thoiled. Mae unrhyw nam yn cael ei adrodd ar unwaith er mwyn i'r tîm ystadau roi sylw iddo a chynhigir ystafell ymolchi amgen at ddefnydd unigol i'r unigolyn.	Uwch-nyrs	Mawrth 2022



4	Mae angen manylion ar AGIC ynghylch sut y bydd y bwrdd iechyd yn sicrhau y bydd y risg i gleifion o glymiadau yn y lleoliad yn cael ei rheoli a'i hosgoi i atal niwed i gleifion yn y lleoliad.	<b>Safon 3.1</b> Gofal diogel a chlinigol effeithiol	Cyflwynwyd cynnig cyfalaf i Lywodraeth Cymru. Roedd hwn yn llwyddiannus, mae gwaith wedi'i gymeradwyo, a bydd yn dechrau ym mis Ionawr. Mae hyn yn cynnwys ffens derfyn ddiogel heb glymiadau i hwyluso mynediad at yr awyr agored.  Mae'r uned heb ei meddiannu ar hyn o bryd, ond pan fydd yn weithredol, bydd asesiad risg a chynllunio gofal yn nodi unrhyw risg ar sail unigol, a gwneir addasiadau rhesymol.	Cyfarwyddwr Ystadau  Uwch-nyrs	Mawrth 2022
5	Mae angen manylion ar AGIC ynghylch sut y bydd y bwrdd iechyd yn sicrhau bod yr adeilad yn cael ei gynnal yn briodol er mwyn atal y risg o niwed i gleifion a staff.	<b>Safon 2.1</b> Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Nid oes unrhyw gleifion yn yr uned ar hyn o bryd. Mae asesiadau risg manwl wedi cael eu cynnal, ac mae cynlluniau gweithredu cyfatebol yn cael eu datblygu er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd yn yr adroddiad.	Cyfarwyddwr Ystadau / Pennaeth Gwasanaethau Anabledd Dysgu	Mawrth 2022
6	Mae angen manylion ar AGIC ynghylch sut y bydd y bwrdd iechyd yn gwella sgiliau a gwybodaeth staff yn y lleoliad i sicrhau bod y grŵp cleifion y gofalir amdanynt yn	<b>Safon 2.1</b> Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Bydd angen cwblhau dadansoddiad llawn o anghenion hyfforddi ar ôl i'r model cleifion mewnol gael ei ddatblygu a'i	Pennaeth Gwasanaethau Anabledd Dysgu	Chwefror 2022

	y lleoliad yn derbyn gofal mewn modd priodol ac yn unol ag arferion gorau.		gymeradwyo. Mae'r gwaith hwn wrthi'n cael ei wneud.  Bydd yr holl staff yn diweddarau eu hyfforddiant gorfodol a rhoddir profiad iddynt o wasanaethau eraill er mwyn llywio arferion yn y dyfodol.	Uwch-nyrs	Mawrth 2022
7	Mae angen sicrwydd ar AGIC gan y bwrdd iechyd nad yw ein canfyddiadau'n ddangosol o fethiant systemig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol ar draws yr holl wasanaethau.	<b>Safon 7.1</b> - Y gweithlu	Mae gan y Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu fforwm rheolwyr ward sefydledig lle y cynhelir dangosyddion ansawdd - er enghraifft, adolygiad thematig o ddiwyddiadau. Mae'r fforwm hwn yn adrodd i'r Grŵp Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Iechyd Meddwl / Anableddau Dysgu. Ar ôl i'r gwasanaeth gael ei adsefydlu ag arweinwyr newydd, byddant yn mynychu'r fforwm rheolwyr ward hwn. Fel rhan o'r broses hon, bydd y gwasanaeth yn cael ei gynnwys mewn gwiriad wardiau iach ac archwiliadau yn ôl y gofyn gan y gwasanaeth.	Uwch-nyrs	Rhagfyr 2021

8	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC o'r camau a gymerir i sicrhau bod y lefelau staffio drwy'r amser yn briodol i ddiwallu anghenion y cleifion yn y lleoliad.	<b>Safon 7.1</b> - Y gweithlu	Ar ôl i ddiben a swyddogaeth y gwasanaeth gael eu sefydlu, bydd lefelau staffio'n cael eu hasesu, eu hadolygu a'u gweithredu fel rhan o'r adolygiad o'r gweithlu.	Pennaeth Gwasanaethau Anableded Dysgu	Chwefror 2022
9	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC o'r camau a gymerir i ddarparu cymorth parhaus i staff a hyrwyddo a chynnal llesiant staff.	<b>Safon 7.1</b> Y gweithlu	<p>Mae rôl uwch-nyrs wedi'i sefydlu gyda chyfrifoldeb gweithredol i'r staff o'r lleoliad.</p> <p>Bydd y rheolwr achosion trais ac ymosodedd ar gyfer y bwrdd iechyd yn parhau i gefnogi'r staff i adrodd unrhyw bryderon yn ôl a chynnig cyngor yn ôl y gofyn.</p> <p>Bydd y hyfforddwr cymorth ymddygiad cadarnhaol / atal a rheoli trais ac ymosodedd yn parhau i gefnogi'r staff. Yn ogystal, bydd yn darparu cyngor a dadansoddiad arbenigol ar leihau arferion cyfyngol. Bydd digwyddiadau ymddygiadol yn cael eu dadansoddi a darperir adroddiad misol i'r uned o lefelau arferion cyfyngol a fydd yn llywio cynllunio gofal unigol.</p>	Uwch-nyrs	Cwblhawyd

			Mae llesiant staff yn datblygu rhaglen strwythuredig o gymorth i'r staff ar sail barhaus. Bydd hon ar ffurf sesiynau myfyrio a gweithredu. Mae'r rhain yn gyfleoedd i wrando ar staff a dysgu o'u profiadau i allu deall pa anghenion sylfaenol sydd, ac edrych ar sut i'w cefnogi orau.	Pennaeth Diwylliant a'r Gweithlu / Uwch-nyrs	Chwefror 2022
10	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu sicrwydd bod gwahanu hirdymor yn cael ei reoli'n briodol o fewn cyfyngiadau Deddf Iechyd Meddwl 1983 ac yn unol â chynlluniau gofal unigol cleifion, i sicrhau a galluogi cyfle i dyfu a datblygu sgiliau personol.	<b>Safon 3.1</b> Gofal diogel a chlinigol effeithiol			
11	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn gwisgo gwisgoedd gofal iechyd priodol ar gyfer y rôl ac anghenion gofal y grŵp cleifion a gofynion y lleoliad.	<b>Safon 2.4</b> Atal a rheoli heintiau a dihalogi			

12	<p>Mae angen sicrwydd ar AGIC gan y bwrdd iechyd am y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gwneir pob ymdrech i gasglu data llais y claf er mwyn cael barn y cleifion am y gwasanaeth a ddarperir gan y lleoliad</li> <li>Mae cleifion yn gallu darparu adborth ar eu profiadau o gael eu hatal yn gorfforol</li> </ul>	<p><b>Safon 6.3</b> Gwrandodysgu adborth</p>	<p>Datblygu fersiwn hawdd ei deall o Holidaur Profiad y Claf, wedi'i chysylltu â'r prawf ffrindiau a theulu</p> <p>Mae ffurflen adborth hawdd ei deall wedi cael ei datblygu a'i pheilota gyda chlaf yn y y lleoliad, wedi'i datblygu ar y cyd rhwng Therapi Lleferydd ac Iaith, Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol a'r uwch-nyrs.</p>	<p>Rheolwr Profiad y Claf / Uwch-nyrs</p> <p>Uwch-nyrs</p>	<p>Ebrill 2022</p> <p>Cwblhawyd</p>
13	<p>Mae angen sicrwydd ar AGIC gan y bwrdd iechyd fod cydymffurfedd staff â hyfforddiant gorfodol yn cael ei gwblhau.</p>	<p><b>Safon 7.1</b> Y gweithlu</p>	<p>Y cydymffurfedd cyfredol ar gyfer staff yn y gwaith yw 88.2%.</p>	<p>Uwch-nyrs</p>	<p>Cwblhawyd</p>
14	<p>Mae angen sicrwydd ar AGIC gan y bwrdd iechyd y rhoddir gweithgareddau priodol sydd wedi'u targedu i gleifion i wella eu hannibyniaeth, eu datblygiad a'u twf.</p>	<p><b>Safon 3.1</b> Gofal diogel a chlinigol effeithiol</p>			

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Enw: Melanie Evans, Pennaeth Anableddau Dysgu

Dyddiad: 8 Rhagfyr 2021